



## Wylfa Newydd Project

### 1.3 Guide to the Application (Welsh language)

PINS Reference Number: EN010007

Application Reference Number: 1.3

June 2018

Revision 1.0

Regulation Number: 5(2)(q)

Planning Act 2008

Infrastructure Planning (Applications: Prescribed Forms and Procedure) Regulations 2009

[This page is intentionally blank]

# Cynnwys

|     |                                         |    |
|-----|-----------------------------------------|----|
| 1   | Cyflwyniad .....                        | 1  |
| 1.1 | Diben y Canllaw.....                    | 1  |
| 1.2 | Prosiect Wylfa Newydd.....              | 1  |
| 2   | Dogfennau'r Cais .....                  | 4  |
| 2.1 | Gofynion deddfwriaethol a pholisi ..... | 4  |
| 2.2 | Yr Iaith Gymraeg.....                   | 4  |
| 2.3 | Strwythur cais am DCO .....             | 5  |
| 2.4 | Mecanweithiau Sicrhau yn y DCO .....    | 11 |

## Rhestr o'r Ffigurau

|                                |    |
|--------------------------------|----|
| Ffigur 2-1 Sicrhau'r DCO ..... | 12 |
|--------------------------------|----|

## Rhestr o'r Tablau

|                                                         |    |
|---------------------------------------------------------|----|
| Tabl 2-1 Rhestr o ddogfennau'r cais i'w cyfieithu ..... | 5  |
| Tabl 2-2 Ystodau Rhifau Lleiniau Cynlluniau Tir .....   | 6  |
| Tabl 2-3 Cyfrol 8 'Dogfennau Eraill' .....              | 9  |
| Tabl 2-4 Dogfennau Rheoli .....                         | 12 |
| Tabl 2-5 Rhestr o Ddogfennau'r Archwiliad .....         | 15 |

[Mae'r dudalen hon i fod yn wag]

# 1 Cyflwyniad

## 1.1 Diben y Canllaw

- 1.1.1 Mae'r ddogfen hon yn Ganllaw (y Canllaw) i'r Cais ar gyfer Prosiect Wylfa Newydd. Mae'n rhoi canllaw i'r dogfennau a baratowyd i gefnogi cais Horizon am Orchymyn Cydsyniad Datblygu (DCO) a gyflwynwyd i'r Arolygiaeth Gynllunio ar 1af Mehefin 2018. Mae'r Canllaw yn dilyn fformat tebyg i'r canllaw ar gyfer Prosiect Cysylltiad Richborough, a gaiff ei nodi fel dogfen enghreifftiol gan yr Arolygiaeth Gynllunio.
- 1.1.2 Mae'r Canllaw i'r Cais yn cynnwys Tabl 2-4. Mae Tabl 2-4 yn cynnwys rhestr o holl Ddogfennau'r Archwiliad. Bydd yn dabl byw a fydd yn cael ei ddiweddarau gan Horizon drwy gydol yr Archwiliad o'r DCO, gan helpu i gyfeirio at ddogfennau yn ystod yr archwiliad a phennu'n glir statws holl ddogfennau'r cais. Gwneir hyn drwy wahaniaethu rhwng y fersiynau cyfredol a blaenorol o'r dogfennau.
- 1.1.3 Mae'r tabl yn cyflwyno gwybodaeth ar gyfer pob dogfen a gyflwynir gyda'r cais am DCO. Mae hyn yn cynnwys rhifau cyfeirnod Llyfrgell Archwiliadau'r Arolygiaeth Gynllunio a rhifau cyfeirnod Dogfennau Horizon. Mae Tabl 2-4 yn cynnwys y ffolder ac yn nodi ym mha Gyfrol y mae'r dogfennau hyn. Mae'r tabl yn nodi pa ddogfennau sydd wedi'u hardystio ac mae'n cyfeirio at y rheoliadau sy'n berthnasol i bob dogfen.

## 1.2 Prosiect Wylfa Newydd

- 1.2.1 Mae Horizon yn cynnig adeiladu a gweithredu Prosiect Wylfa Newydd, sy'n cynnwys Prosiect DCO Wylfa Newydd, y Gweithgareddau Morol mae angen eu Trwyddedu a'r Gwaith Galluogi. Mae'r holl elfennau hyn yn cael eu disgrifio isod. Bydd Prosiect DCO Wylfa Newydd yn cael cydsyniad o dan DCO, bydd y Gwaith Galluogi yn cael cydsyniad drwy ganiatâd cynllunio a bydd y Gweithgareddau Morol mae angen eu Trwyddedu yn cael cydsyniad o dan Drwydded Forol. Mae rhywfaint o orgyffwrdd rhwng y naill a'r llall; bydd y Gwaith Morol (gweler isod) yn cael cydsyniad o dan y DCO a'r Drwydded Forol.

### Prosiect DCO Wylfa Newydd

- 1.2.2 Mae Prosiect DCO Wylfa Newydd yn cynnwys y rhannau hynny o Brosiect Wylfa Newydd a fydd yn cael cydsyniad drwy DCO, sef:

#### Y Prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol

- Yr Orsaf Bŵer: gorsaf bŵer niwclear newydd arfaethedig yn Wylfa, gan gynnwys dau Adweithydd Dŵr Berwedig Uwch y DU, y System Dŵr Oeri, cyfleusterau, adeiladau, strwythurau ac offer cefnogol, adeiladau i storio tanwydd sydd wedi cael ei ddefnyddio a gwastraff ymbelydrol a'r Cysylltiad â'r Grid;

- datblygiadau eraill ar y safle: gan gynnwys gwaith tirweddu a phlannu, draeniau, systemau rheoli dŵr wyneb, gwaith mynediad i'r cyhoedd gan gynnwys cau a dargyfeirio hawliau tramwy cyhoeddus dros dro ac yn barhaol, Ffordd Fynediad newydd i'r Orsaf Bŵer a ffyrdd mewnol y safle, meysydd parcio, gwaith a gweithgareddau adeiladu gan gynnwys compowndiau adeiladu ac ardaloedd parcio dros dro, ardaloedd gosod, ardaloedd gweithio a gwaith a strwythurau dros dro, ardal dros dro i wyllo'r gwaith adeiladu, dargyfeirio cyfleustodau, ffens perimedr a ffensys adeiladu a chysylltiadau trydan;
- Gwaith Morol sy'n cynnwys:
  - Gwaith Morol Parhaol: y System Dŵr Oeri, y Cyfleuster Dadlwytho Morol, strwythurau morglawdd, gwaith i ddiogelu'r lan, manau gollwng draeniau dŵr wyneb, man gollwng carthffrwd dŵr gwastraff (a draeniau cysylltiedig dŵr wyneb a charthffrwd dŵr gwastraff i'r môr), system achub a dychwelyd pysgod, system atal pysgod, cymhorthion mordwyo a Charthu;
  - Gwaith Morol Dros Dro: argaeau coffr dros dro, ramp mynediad dros dro, cymhorthion mordwyo dros dro, manau gollwng dros dro ac angorfa dros dro i gychod camlas;
  - Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer: sy'n cynnwys y Ganolfan Rheoli Argyfwng Amgen, y Labordy Arolygon Amgylcheddol a'r Garej Offer Argyfwng Symudol;

### **Datblygiadau Cysylltiedig**

- Campws y Safle yn Ardal Datblygu Wylfa Newydd;
- cyfleuster Parcio a Theithio dros dro yn Dalar Hir ar gyfer gweithwyr adeiladu (Parcio a Theithio);
- Canolfan Logisteg dros dro ym Mharc Cybi (Canolfan Logisteg);
- y Newidiadau i Briffordd yr A5025;
  - Gwaith i greu a gwella cynefinoedd gwlyptir i wneud iawn am unrhyw effeithiau posibl ar Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Tre'r Gof yn y safleoedd canlynol:
    - Tŷ Du;
    - Cors Gwawr;
    - Cae Canol-dydd

1.2.3 Mae'r termau canlynol yn cael eu defnyddio wrth ddisgrifio'r ardaloedd daearyddol sy'n gysylltiedig â Phrosiect DCO Wylfa Newydd a'r Gweithgareddau Morol mae angen eu Trwyddedu:

- Safle'r Orsaf Bŵer – yr ardaloedd dangosol o dir a môr lle byddai'r rhan fwyaf o'r Orsaf Bŵer barhaol, Gwaith Morol a datblygiadau eraill ar y safle; ac

- Ardal Datblygu Wylfa Newydd – yr ardaloedd dangosol o dir a môr gan gynnwys Safle'r Orsaf Bŵer a'r ardaloedd cyfagos a fyddai'n cael eu defnyddio ar gyfer adeiladu a gweithredu'r Orsaf Bŵer, y Gwaith Morol, Campws y Safle a datblygiadau eraill ar y safle (Datblygiad Ardal Datblygu Wylfa Newydd).

### **Gweithgareddau Morol mae angen eu Trwyddedu**

- 1.2.4 Mae'r Gweithgareddau Morol mae angen eu Trwyddedu yn cynnwys y Gwaith Morol a gwaredu'r deunyddiau ar ôl y gwaith Carthu yn y Safle Gwaredu.

### **Gwaith Galluogi**

- 1.2.5 Mae'r Gwaith Galluogi yn cynnwys y Cynigion ar gyfer Paratoi a Chlirio'r Safle a'r Gwelliannau i Briffordd yr A5025.
- 1.2.6 Mae Horizon wedi cyflwyno ceisiadau am ganiatâd cynllunio ar gyfer y Gwaith Galluogi o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i Gyngor Sir Ynys Môn.
- 1.2.7 Er mwyn cynnal hyblygrwydd yn y broses gydsynio ar gyfer Prosiect DCO Wylfa Newydd, mae'r Cynigion Paratoi a Chlirio'r Safle hefyd wedi cael eu cynnwys yn y cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu. Nid ydy'r Gwelliannau i Briffordd yr A5025 yn rhan o'r cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu.

## 2 Dogfennau'r Cais

### 2.1 Gofynion deddfwriaethol a pholisi

- 2.1.1 Mae Rheoliad 5(2) o Reoliadau Cynllunio Seilwaith (Ceisiadau: Ffurflenni a Gweithdrefnau Rhagnodedig) 2009 (diwygiwyd) ('Rheoliadau APFP') yn nodi'r dogfennau rhagnodedig mae'n rhaid eu cyflwyno gyda chais am DCO. Mae Rheoliad 6 o Reoliadau APFP hefyd yn nodi'r dogfennau rhagnodedig y mae'n rhaid eu cyflwyno gyda cheisiadau ar gyfer mathau penodol o brosiectau.
- 2.1.2 Mae Tabl 2-4 yn rhestru'r holl ddogfennau a gyflwynwyd i gefnogi'r cais am DCO yn unol â Rheoliadau 5(2) a 6 o Reoliadau APFP. Mae'r gofynion deddfwriaethol neu bolisi sy'n berthnasol i bob un o'r dogfennau yn cael eu nodi hefyd.
- 2.1.3 Mae Prosiect DCO Wylfa Newydd yn cynnwys adeiladu gorsaf gynhyrchu, seilwaith priffyrdd cysylltiedig, cyfleusterau harbwr a chyfleusterau gwastraff peryglus. Mae Horizon hefyd wedi paratoi'r dogfennau sydd wedi'u rhagnodi yn Rheoliadau 6(1), 6(2), 6(3) a 6(5).
- 2.1.4 Mae'r Prosiect yn un o ddatblygiadau'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol. Gwelwyd Rheoliadau Cynllunio Seilwaith: (Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol) 2017 yn disodli Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol) 2009 ar 16 Mai 2017. Mae'r Datganiad Amgylcheddol a gyflwynwyd wedi'i gyflawni yn unol â Rheoliadau Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol 2009 gan fod yr Adroddiad Cwmpasu wedi'i gyflwyno cyn mis Mai 2017. Fodd bynnag, lle bo'n bosibl, mae'r Datganiad Amgylcheddol yn ystyried darpariaethau diwygiedig Rheoliadau Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol 2017.
- 2.1.5 Mae'r cais a gyflwynwyd yn cydymffurfio â gofynion statudol Deddf Cynllunio 2008, Rheoliadau APFP a Rheoliadau'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol 2009. Mae'r cais wedi'i baratoi hefyd yn unol â chanllawiau gan yr Ysgrifennydd Gwladol a'r Arolygiaeth Gynllunio, yn enwedig Nodyn Cyngor 6 'Paratoi a chyflwyno dogfennau'r cais' (Chwefror, 2016).

### 2.2 Yr Iaith Gymraeg

- 2.2.1 Yn ôl Nodyn Cyngor Chwec yr Arolygiaeth Gynllunio 'anogwn ymgeiswyr yn gryf i ddarparu dogfennau cais priodol yn Gymraeg a Saesneg'.
- 2.2.2 Mae Horizon a'r Arolygiaeth Gynllunio wedi cytuno y bydd Horizon yn darparu fersiynau Cymraeg o ddogfennau annhechnegol a chrynodebau ar gyfer dogfennau technegol penodol. Dyma a wnaed mewn ceisiadau blaenorol am orchmynion cydsyniad datblygu yng Nghymru ac mae'n cyd-fynd â pholisi iaith Gymraeg Horizon. Mae Tabl 2-1 yn nodi manylion dogfennau'r cais a fydd yn cael eu cyfieithu i'r Gymraeg.

**Tabl 2-1 Rhestr o ddogfennau'r cais i'w cyfieithu**

| Dogfen i'w Chyflwyno                                                                                                             | Cyfieithu         |
|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------|
| Llythyr Eglurhaol y Cais                                                                                                         | Cyfieithiad llawn |
| Canllaw i'r Cais                                                                                                                 | Cyfieithiad llawn |
| Adroddiad yr Ymgynghoriad                                                                                                        | Crynodeb yn unig  |
| Crynodeb Annhechnegol o'r Datganiad Amgylcheddol                                                                                 | Cyfieithiad llawn |
| Datganiad Cynllunio                                                                                                              | Crynodeb yn unig  |
| Datganiad Dylunio a Mynediad: Cyfrol 1                                                                                           | Crynodeb yn unig  |
| Datganiad Dylunio a Mynediad: Cyfrol 2                                                                                           | Crynodeb yn unig  |
| Datganiad Dylunio a Mynediad: Cyfrol 3                                                                                           | Crynodeb yn unig  |
| Crynodeb Annhechnegol o'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd                                                                          | Cyfieithiad llawn |
| Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg                                                                                          | Cyfieithiad llawn |
| Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg Atodiad I1 – Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant | Cyfieithiad llawn |
| Adroddiad ar yr Effaith ar Gymunedau                                                                                             | Crynodeb yn unig  |

- 2.2.3 Yn ystod yr Archwiliad o'r DCO, bydd Horizon yn cydymffurfio'n llwyr â Chynllun Iaith Gymraeg (2014) yr Arolygiaeth Gynllunio. Yn unol â'r Cynllun, bydd aelodau o'r cyhoedd yn cael siarad Cymraeg mewn Archwiliadau. Bydd Horizon yn darparu cyfleusterau cyfieithu ar y pryd yn y cyfarfod Rhagarweiniol ac ym mhob un o wrandawiadau'r Archwiliad.
- 2.2.4 Bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn croesawu sylwadau ysgrifenedig yn Gymraeg ond bydd yn ymateb i bob sylw mewn Saesneg yn unig. Mae hyn yn angenrheidiol o gofio'r gofyniad statudol o dan adran 98 o Ddeddf Cynllunio 2008 sy'n nodi bod yn rhaid i'r Awdurdod Archwilio gwblhau ei Archwiliad o fewn chwe mis. Mae hyn yn unol â'r dull a ddilynwyd yn ystod yr Archwiliad diweddar o gais am DCO Cynllun Pwmpio a Storio Ynni Glyn Rhonwy.

## 2.3 Strwythur cais am DCO

- 2.3.1 Mae dogfennau'r cais wedi'u rhannu'n wyth Cyfrol, sy'n cyfateb i'r categorïau a argymhellwyd gan yr Arolygiaeth Gynllunio, fel y nodir yn Atodiad 1 i Nodyn Cyngor Chwech '*Paratoi a chyflwyno dogfennau cais*'. Mae cynnwys pob Cyfrol wedi'i grynhoi isod.
- 2.3.2 Mae crynodeb o bob dogfen ar gael ar ddechrau pob dogfen, oni nodir fel arall yn y Rhestr o Ddogfennau'r Archwiliad yn Nhabl 2-5.

### Cyfrol 1. Y Ffurflen Gais

- 2.3.3 Mae Cyfrol 1 yn cynnwys Ffurflen Gais y DCO a'r dogfennau ategol sy'n cynnwys Llythyr Eglurhaol y Cais, y Canllaw i'r Cais hwn, Hysbysiadau Cyhoeddusrwydd Statudol a Geirfa'r Gorchymyn Cydsyniad Datblygu.

## Cyfrwl 2. Cynlluniau, Adrannau a Lluniadau

2.3.4 Mae'r Gyfrwl hon yn cynnwys pob un o'r canlynol:

- Cynlluniau Terfyn y Gorchymyn – Mae'r cynlluniau hyn yn dangos Terfynau'r Gorchymyn ar gyfer y datblygiad a awdurdodir. Mae Terfynau'r Gorchymyn yn diffinio'r ardal y gellir adeiladu, gweithredu a chynnal a chadw'r datblygiad awdurdodedig ynddi;
- Cynlluniau Tir - Mae'r cynlluniau hyn yn nodi terfynau'r tir a gaiff ei brynu a'i ddefnyddio a'r lleiniau unigol o dir y mae Horizon yn bwriadu arfer ei bwerau caffael gorfodol drostynt;
- Cynlluniau Gwaith – Mae'r cynlluniau hyn yn nodi Terfynau'r Gorchymyn ar gyfer y datblygiad a awdurdodir a nodir yn Atodlen 1 yn ogystal â'r terfynau gwyro ar gyfer pob Gwaith;
- Cynlluniau o'r Paramedr – Mae'r cynlluniau hyn yn nodi'r Parthau y mae'n rhaid i'r adeiladau, y strwythurau a'r gwaith a nodir yn y tablau paramedr yn y Gofynion gael eu lleoli ynddynt;
- Hawliau Tramwy – Mae'r cynlluniau hyn yn nodi'r hawliau tramwy cyhoeddus a phreifat presennol a fydd yn cael eu cau neu eu dargyfeirio ac unrhyw hawliau tramwy newydd a fydd yn cael eu darparu, naill ai yn ystod y cam adeiladu neu'r cam gweithredu; a
- Cynlluniau Manwl – Dyma'r cynlluniau dylunio manwl mae Horizon yn gofyn am gymeradwyaeth iddynt ar gyfer gwaith penodol.

2.3.5 Mae'r Cynlluniau Tir ar gyfer pob safle yn cynnwys rhif llain unigryw ar gyfer pob llain o dir. Mae ystodau rhifau'r lleiniau'n cael eu dangos yn Nhabl 2-2.

**Tabl 2-2 Ystodau Rhifau Lleiniau Cynlluniau Tir**

| Safle                                   | Ystod Rhifau Lleiniau |
|-----------------------------------------|-----------------------|
| Ardal Datblygu Wylfa Newydd             | 1-199                 |
| Canolfan Logisteg ym Mharc Cybi         | 200-299               |
| Parcio a Theithio yn Dalar Hir          | 300-399               |
| Newidiadau i Briffordd yr A5025 Adran 1 | 400-499               |
| Newidiadau i Briffordd yr A5025 Adran 3 | 500-599               |
| Newidiadau i Briffordd yr A5025 Adran 5 | 600-699               |
| Newidiadau i Briffordd yr A5025 Adran 7 | 700-799               |
| Safleoedd Gwneud lawn Ecolegol          | 800-899               |

2.3.6 Yn ogystal â hyn, mae'r Gyfrwl hon yn cynnwys cynlluniau sy'n dangos Tir y Goron a Thir Categori Arbennig. Mae'r holl gynlluniau sy'n cael eu

cymeradwyo yn cael eu cynnwys fel rhan o Atodlen 2 i DCO (Gorsaf Gynhyrchu Niwclear) Wylfa Newydd (y Gorchymyn drafft).

- 2.3.7 Mae Cyfrol D y Datganiad Amgylcheddol yn cynnwys cyfres o ffigurau sy'n dangos y safleoedd neu nodweddion gwarchod natur statudol ac anstatudol (Cyfeirnod y Cais 6.4.9) a'r amgylchedd hanesyddol (Cyfeirnod y Cais 6.4.11). Mae asesiad o'r effeithiau sy'n debygol o gael eu hachosi gan Brosiect DCO Wylfa Newydd yn ategu'r ffigurau.
- 2.3.8 Nid ydy'r cynlluniau llawr ar gyfer adeiladau Safle'r Orsaf Bŵer wedi cael eu cynnwys yn y lluniadau manwl pan fo'n briodol er mwyn sicrhau diogelwch gweithredol yr Orsaf Bŵer.
- 2.3.9 Yn dilyn cyngor gan yr Arolygiaeth Gynllunio ar 22 Mehefin 2017, mae nifer o gynlluniau'n cael eu darparu ar raddfa lai na 1:2500, lle bo angen, i helpu pobl i ddeall Prosiect DCO Wylfa Newydd, gan gynnwys er mwyn dangos y gwaith a fydd yn cael ei wneud ar draws Ardal Datblygu Wylfa Newydd ar un cynllun.
- 2.3.10 Defnyddir y categorïau canlynol i nodi faint o fanylion a ddangosir ar y cynlluniau:
- 'I'w cymeradwyo': caiff y manylion sydd wedi'u cynnwys ar y cynllun eu cyflwyno i'w cymeradwyo. Byddai'r gwaith o adeiladu Prosiect Wylfa Newydd yn cael ei gyflawni yn unol â'r manylion a nodir ar y cynllun oni chymeradwyir fel arall. Bydd y cynlluniau hyn yn cael eu sicrhau naill ai drwy'r erthyglau neu'r gofynion yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn drafft.
  - 'Dangosol': mae'r manylion a ddangosir ar y cynllun at ddibenion dangos yn unig. Mae'r cynllun yn dangos un ffordd y gellid trefnu'r datblygiad neu elfen ohono yn unol â'r egwyddorion dylunio a ddatblygwyd ar gyfer y safle, ond nid yw'n ymrwymiad i roi'r datblygiad ar waith fel y'i dangoswyd. Byddai cynllun terfynol y datblygiad, neu'r rhan berthnasol ohono, yn cael eu cyflwyno i'r awdurdod cynllunio perthnasol am gymeradwyaeth o dan y Gofynion yn Atodlen 3 i'r DCO. Gallai'r manylion hyn fod yn wahanol i'r cynllun dangosol yn y cais am DCO. Mae'n rhaid i fanylion sy'n cael eu cyflwyno i'w cymeradwyo o dan y Gofynion fod yn unol â'r Cynlluniau Gwaith a'r Cynlluniau o'r Paramedr, a'r egwyddorion dylunio ar gyfer y safle hwnnw (fel y'u nodir yn y gyfrol berthnasol o'r Datganiad Dylunio a Mynediad).
  - 'Er gwybodaeth': mae'r cynlluniau hyn yn dangos manylion presennol (ee nodweddion a chynllun presennol y safle). Nid ydynt i'w cymeradwyo fel rhan o'r cais ond fe'u darperir i lywio'r modd y caiff y cais ei ystyried ac i roi'r cyd-destun angenrheidiol.
- 2.3.11 Mae'r gwaith o baratoi'r cynlluniau wedi'i gyflawni yn unol â'r rheoliadau perthnasol o Reoliadau APFP a Nodyn Cyngor Chwech.

### Cyfrol 3. Gorchymyn Cydsyniad Datblygu Drafft

- 2.3.12 Mae'r Gyfrol hon yn cynnwys y Gorchymyn drafft ac mae'n cyflwyno'r hawliau a phwerau cyfreithiol y gwneir cais amdanynt er mwyn adeiladu, gweithredu a chynnal a chadw Prosiect DCO Wylfa Newydd.
- 2.3.13 Mae'r Gorchymyn drafft yn cynnwys, o dan Atodlen 1, y pecynnau gwaith unigol sy'n cynnwys adeiladu Prosiect Wylfa Newydd (y Prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol a gwaith datblygu cysylltiedig arall). Mae Atodlen 3 i'r Gorchymyn drafft yn nodi'r gofynion sy'n berthnasol i'r gwaith o adeiladu a gweithredu Prosiect Wylfa Newydd.
- 2.3.14 Caiff y Gorchymyn drafft ei gyflwyno gyda fersiwn arall o'r Gorchymyn drafft sydd wedi'i farcio yn erbyn Gorchymyn Cynllunio Seilwaith (Darpariaethau Enghreifftiol) (Cymru a Lloegr) 2009 (Darpariaethau Enghreifftiol) sy'n nodi amrywiadau rhwng yr erthyglau yn y Gorchymyn drafft a'r Darpariaethau Enghreifftiol. Pan fydd y Gorchymyn yn gwyro oddi wrth y Darpariaethau Enghreifftiol, rhoddir esboniad o'r ddarpariaeth newydd a nodir unrhyw gynseiliau perthnasol. Er bod y Darpariaethau Enghreifftiol wedi cael eu diddymu, mae Nodyn Cyngor 13: *Paratoi'r gorchymyn drafft a'r memorandwm esboniadol*, yn nodi ei bod yn ddefnyddiol o hyd i'r Arolygiaeth Gynllunio gael fersiwn â newidiadau wedi'u marcio i ddangos achosion o wyro oddi wrth y Darpariaethau Enghreifftiol.
- 2.3.15 Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n disgrifio diben ac effaith pob darpariaeth (fel sy'n ofynnol o dan Reoliadau APFP) yn y Gorchymyn drafft wedi'i gynnwys yng Nghyfrol 3 hefyd. Pan fydd y Gorchymyn yn gwyro oddi wrth y Darpariaethau Enghreifftiol, rhoddir esboniad o'r ddarpariaeth newydd a nodir unrhyw gynseiliau perthnasol.

### Cyfrol 4. Gwybodaeth am Brynu Gorfodol

- 2.3.16 Mae Cyfrol 4 yn cynnwys yr wybodaeth sy'n berthnasol i'r cais am bwerau prynu gorfodol. Mae'r Datganiad o Resymau yn egluro pam bod angen proses caffael gorfodol a pham bod cyfiawnhad drosti, tra bo'r Datganiad Cyllido yn nodi sut y bydd hyn yn cael ei ariannu. Mae Llyfr Cyfeirio wedi'i gynnwys yng Nghyfrol 4 ac mae'n nodi'r Bobl â Diddordeb yn y Tir a thir y gallai Horizon geisio arfer ei bwerau prynu gorfodol drosto.

### Cyfrol 5. Adroddiadau

- 2.3.17 Mae'r Gyfrol hon yn cynnwys Adroddiad yr Ymgynghoriad, yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, Datganiad Deddf Diogelu'r Amgylchedd a'r Ddogfen Gyfeirio Gyffredinol ar gyfer Asesu Canlyniadau Llifogydd.
- 2.3.18 Mae Cyfrol 5 hefyd yn cynnwys manylion cydsyniadau a thrwyddedau eraill nad ydynt yn rhan o'r Gorchymyn drafft ac y bydd Horizon yn gwneud cais amdanynt ar wahân.

### Cyfrol 6. Datganiad Amgylcheddol

- 2.3.19 Mae Cyfrol 6 yn cynnwys holl benodau ac atodiadau'r Datganiad Amgylcheddol. Mae'r Datganiad Amgylcheddol wedi'i rannu'n Gyfrolau sy'n

amrywio o A i J. Mae Cyfrolau A a B yn cyflwyno Prosiect Wylfa Newydd, y dull gweithredu ar gyfer yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol a'r asesiadau pwnc-benodol. Mae Cyfrol C yn rhoi asesiad o effeithiau'r prosiect cyfan ac mae Cyfrolau D i H yn ystyried effeithiau safle-benodol. Ym mhob Cyfrol safle-benodol mae asesiadau pwnc-benodol o'r effeithiau ar gyfer y safle. Mae effeithiau cronnus Prosiect Wylfa Newydd yn cael eu hasesu yng Nghyfrol I. Mae Cyfrol J yn cynnwys yr ymrwymïadau amgylcheddol ac mae'n crynhoi'r effeithiau gweddilliol.

- 2.3.20 Mae asesiadau, arolygon ac adroddiadau manwl sy'n sail i ganfyddiadau asesiadau'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol wedi cael eu cynnwys fel atodiadau i Gyfrolau priodol y Datganiad Amgylcheddol.

### Cyfrol 7. Datganiadau Rheoliad 6

- 2.3.21 Mae Cyfrol 7 yn cynnwys y Datganiad Cysylltiad Grid fel sydd ei angen ar gyfer prosiectau sy'n cynnwys gorsafoedd cynhyrchu gan Reoliad 6(1) o'r Rheoliadau APFP. Er nad yw'r Prosiect yn diwallu'r meini prawf prosiect seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol o dan Ddeddf Cynllunio 2008 sy'n ymwneud â chyfleusterau harbwr a gwastraff peryglus, mae Horizon hefyd wedi darparu gwybodaeth ychwanegol ar gyfer yr Arolygiaeth Gynllunio mewn perthynas â'r cyfleusterau hyn sy'n rhan o'r Prosiect. Diben hyn ydy rhoi naratif ychwanegol i'r Arolygiaeth Gynllunio ynghylch pam mae angen y cydrannau hyn.

### Cyfrol 8. Dogfennau Eraill

- 2.3.22 Mae'r Gyfrol hon yn cynnwys yr holl adroddiadau sy'n weddill sy'n ategu'r cais am DCO. Mae'r Datganiad Cynllunio yn nodi cyd-destun y polisi cynllunio y caiff Prosiect DCO Wylfa Newydd ei adolygu yn ei erbyn. Mae'r Datganiad Dylunio a Mynediad yn cynnwys tair Cyfrol. Mae'r Gyfrol gyntaf yn cwmpasu'r prosiect cyfan, yr ail yn canolbwyntio ar yr Orsaf Bŵer a Chyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer, a'r drydedd yn canolbwyntio ar y Datblygiadau Cysylltiedig.
- 2.3.23 Mae cyfres o asesiadau, dogfennau rheoli allweddol o dan y Gofynion (fel y Codau Ymarfer a'r Strategaethau) a strategaethau eraill yn cael eu cyflwyno yn y Gyfrol hon hefyd. Mae'r rhestr lawn wedi'i nodi isod:

**Tabl 2-3 Cyfrol 8 'Dogfennau Eraill'**

| Teitl y Ddogfen              | Disgrifiad o'r Ddogfen                                                                                                                                                                                                                                                                                                           |
|------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Datganiad Cynllunio          | Mae'n rhoi'r sail resymegol dros Brosiect Wylfa Newydd Project ac yn rhoi hyn yng nghyd-destun polisiâu cynllunio cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, er mwyn i'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad allu llunio barn ar y cydbwysedd cynllunio cyffredinol, gan gynnwys ystyried manteision y prosiect wrth gymharu â'i effeithiau. |
| Datganiad Dylunio a Mynediad | Mae'r ddogfen hon, sydd wedi'i rhannu'n dair Cyfrol, yn disgrifio'r cysyniadau a'r egwyddorion dylunio a'r trefniadau mynediad.                                                                                                                                                                                                  |

| Teitl y Ddogfen                                                 | Disgrifiad o'r Ddogfen                                                                                                                                                                                                                                                                                 |
|-----------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Strategaeth Swyddi a Sgiliau                                    | Mae'n nodi'r strategaeth ar gyfer cyflogi a hyfforddi staff a hybu cyflogaeth leol.                                                                                                                                                                                                                    |
| Strategaeth Rheoli Llety'r Gweithlu                             | Mae'n nodi'r strategaeth ar gyfer darparu llety ar gyfer y gweithlu adeiladu dros dro.                                                                                                                                                                                                                 |
| Strategaeth Rheoli Gweithlu                                     | Mae'n pennu'r egwyddorion a fydd yn helpu Horizon i reoli ei gontractwyr a'i weithlu a llywio datblygiad Cod Ymddygiad Wylfa Newydd.                                                                                                                                                                   |
| Cod Ymarfer Adeiladu Wylfa Newydd                               | Ar gyfer pob agwedd ar Brosiect DCO Wylfa Newydd, mae'n amlinellu'r strategaethau, y mesurau a'r safonau gwaith i'w mabwysiadu drwy gydol y cyfnod adeiladu. Mae'r Cod Ymarfer Adeiladu hwn (a rhai is-Godau Ymarfer Adeiladu) hefyd yn delio â rheolaethau gweithredol ar gyfer datblygiadau penodol. |
| Is-god Ymarfer Adeiladu Prif Safle'r Orsaf Bŵer                 | Mae'n amlinellu'r strategaethau, y mesurau a'r safonau gwaith i'w mabwysiadu drwy gydol y cyfnod adeiladu ar gyfer Prif Safle'r Orsaf Bŵer.                                                                                                                                                            |
| Is-god Ymarfer Adeiladu'r Gwaith Morol                          | Mae'n amlinellu'r strategaethau, y mesurau a'r safonau gwaith i'w mabwysiadu drwy gydol y cyfnod adeiladu ar gyfer y Gwaith Morol.                                                                                                                                                                     |
| Is-god Ymarfer Adeiladu Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer | Mae'n amlinellu'r strategaethau, y mesurau a'r safonau gwaith i'w mabwysiadu drwy gydol y cyfnod adeiladu ar gyfer Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer.                                                                                                                                            |
| Is-god Ymarfer Adeiladu Parcio a Theithio                       | Mae'n amlinellu'r strategaethau, y mesurau a'r safonau gwaith i'w mabwysiadu drwy gydol y cyfnod adeiladu ar gyfer y safle Parcio a Theithio.                                                                                                                                                          |
| Is-god Ymarfer Adeiladu'r Ganolfan Logisteg                     | Mae'n amlinellu'r strategaethau, y mesurau a'r safonau gwaith i'w mabwysiadu drwy gydol y cyfnod adeiladu ar gyfer safle'r Ganolfan Logisteg.                                                                                                                                                          |
| Is-god Ymarfer Adeiladu Newidiadau i Briffordd yr A5025         | Mae'n amlinellu'r strategaethau, y mesurau a'r safonau gwaith i'w mabwysiadu drwy gydol y cyfnod adeiladu ar gyfer y Newidiadau i'r Briffordd.                                                                                                                                                         |
| Cod Ymarfer Gweithredu                                          | Mae'n amlinellu'r fframwaith mesurau a safonau ar gyfer gweithredu'r datblygiad.                                                                                                                                                                                                                       |
| Map Llwybr Lliniaru                                             | Mae'n pennu'r mesurau lliniaru a awgrymir yn y Datganiad Amgylcheddol ac a sicrheir drwy'r Strategaethau a'r Codau Ymarfer.                                                                                                                                                                            |
| Adroddiad Carbon ac Ynni                                        | Mae'n nodi manylion yr ôl-troed carbon ac ynni ar gyfer Prosiect DCO Wylfa Newydd                                                                                                                                                                                                                      |
| Strategaeth Rheoli Tirwedd a Chynefinoedd                       | Mae'r strategaeth hon yn nodi sut y bwriedir mynd i'r afael ag effeithiau Prosiect DCO Wylfa Newydd ar gynefinoedd a'u rheoli.                                                                                                                                                                         |
| Datganiad Cynaliadwyedd                                         | Mae'n amlygu sut mae egwyddorion datblygu cynaliadwy wedi cael eu hystyried a'u hintegreiddio o fewn Prosiect DCO Wylfa Newydd.                                                                                                                                                                        |
| Crynodeb Annhechnegol Asesiad o'r Effaith ar Iechyd             | Fersiwn cryno annhechnegol o'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd a ddisgrifir isod.                                                                                                                                                                                                                        |

| Teitl y Ddogfen                                      | Disgrifiad o'r Ddogfen                                                                                                                                                                 |
|------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Asesiad o'r Effaith ar Iechyd                        | Mae'n nodi ac yn asesu effeithiau Prosiect DCO Wylfa Newydd o ran iechyd a lles ac yn awgrymu mesurau lliniaru.                                                                        |
| Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg              | Mae'n asesu effeithiau tebygol Prosiect DCO Wylfa Newydd ar y Gymraeg a'i diwylliant.                                                                                                  |
| Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb                  | Mae'n asesu effaith polisiau, arferion a gwasanaethau newydd a diwygiedig yn erbyn gofynion dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus.                                                |
| Adroddiad ar yr Effaith ar Gymunedau                 | Mae'n nodi'r effeithiau o'r Datganiad Amgylchedd, a dogfennau asesu eraill, ar gymunedau lleol ac yn cyflwyno'r rhain yn ofodol.                                                       |
| Adroddiadau Dethol Safleoedd                         | Mae'n amlinellu'r dull o bennu lleoliad y prif gydrannau dros dro a pharhaol sy'n rhan o Ardal Datblygu Wylfa Newydd.                                                                  |
| Datganiad Sefyllfa'r Datganiadau Tir Cyffredin       | Mae'n nodi sut mae Horizon yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i gytuno ar Ddatganiadau Tir Cyffredin ac mae'n egluro'r cynnydd sydd wedi cael ei wneud mewn perthynas â phob un. |
| Asesiad Cydymffurfio â'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr | Mae'n dangos sut y bydd cynigion Prosiect DCO Wylfa Newydd yn cydymffurfio â'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr.                                                                            |
| Strategaeth Pennu Camau                              | Mae'n pennu ym mha drefn y bydd Prosiect DCO Wylfa Newydd a gwaith lliniaru allweddol yn cael eu hadeiladu.                                                                            |

## 2.4 Mecanweithiau Sicrhau yn y DCO


2.4.1 Mae'r adran hon yn amlinellu sut y bydd y mesurau lliniaru a nodwyd yn y Datganiad Amgylcheddol a'r asesiadau eraill yn cael eu sicrhau a'u darparu.

2.4.2 Fel y nodir uchod, mae Atodlen 3 i'r Gorchymyn drafft yn nodi'r holl ofynion y mae'n rhaid i Horizon gydymffurfio â nhw wrth adeiladu, gweithredu a chynnal a chadw Prosiect Wylfa Newydd. Mae'r Gofynion yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn drafft wedi'u strwythuro fel a ganlyn:

- Gofynion y prosiect cyfan: Gofynion cyffredinol yw'r rhain sy'n berthnasol i'r holl becynnau gwaith, fel terfynau amser ar gyfer cychwyn a phennu camau cyffredinol Prosiect DCO Wylfa Newydd;
- Gofynion sy'n benodol i'r gwaith: Gofynion yw'r rhain sy'n berthnasol i becyn(nau) gwaith penodol o fewn y Prosiect (ee Gofynion sy'n ymwneud â Pharc Cybi yn unig). Mae gofynion sy'n benodol i'r gwaith yn ymwneud â chydymffurfio â:
  - yr is-God Ymarfer Adeiladu perthnasol a Strategaethau Rheoli;
  - paramedrau (pan fo'n berthnasol);
  - camau'r gwaith adeiladu;

- gofyniad i gyflwyno Cynlluniau Rheoli a manylion dylunio ar gyfer cymeradwyaeth; a
- gofynion gweithredol.

**Ffigur 2-1 Sicrhau'r DCO**



2.4.3 Fel sy'n cael ei ddangos ar ffigur 2-1 uchod, mae'r Gofynion yn amodi y bydd Horizon yn cydymffurfio â nifer o ddogfennau rheoli wrth gyflawni Prosiect Wylfa Newydd. Mae'r dogfennau hyn, fel y'u disgrifir yn Nhabl 2-4 yn nodi'r fframwaith ar gyfer adeiladu, gweithredu a chynnal a chadw Prosiect DCO Wylfa Newydd, a bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn eu hardystio.

**Tabl 2-4 Dogfennau Rheoli**

| Teitl y Ddogfen                                                | Disgrifiad o'r Ddogfen                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                           |
|----------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Cod Ymarfer Adeiladu ac Is-godau Ymarfer Adeiladu Wylfa Newydd | Mae Cod Ymarfer Adeiladu Wylfa Newydd, ynghyd ag Is-godau Ymarfer Adeiladu sy'n benodol i leoliad, yn nodi sut y bydd gweithgareddau adeiladu yn cael eu rheoli er mwyn cyflawni'r ymrwymiadau lliniaru a nodwyd yn y Datganiad Amgylcheddol yn ogystal â phrosesau asesu eraill a gyflawnwyd (ee Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd). Darperir Is-godau Ymarfer Adeiladu ar gyfer y Prif Safle, Gwaith Morol, Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer, y Ganolfan Logisteg, y Cyfleuster Parcio a Theithio a'r Newidiadau i Briffordd yr A5025. Mae'r Is-godau Ymarfer Adeiladu hyn yn nodi rheolaethau penodol sy'n berthnasol i'r lleoliadau hynny nad ydynt yn cael eu cwmpasu'n ddigonol gan God Ymarfer Adeiladu Wylfa Newydd. |

| Teitl y Ddogfen                           | Disgrifiad o'r Ddogfen                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                   |
|-------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Cod Ymarfer Gweithredu Wylfa Newydd       | Yn debyg i'r Codau Ymarfer Adeiladu, mae Cod Ymarfer Gweithredu Wylfa Newydd yn nodi'r rheolaethau fydd yn berthnasol yn ystod cyfnod gweithredu'r Prosiect (ee oriau gweithredu). Bydd y Cod Ymarfer Gweithredu yn ddogfen ardystiedig a bydd yn ofynnol i Horizon gydymffurfio ag ef o dan y Gofynion.                                                                                                                                                                                                                                                                                 |
| Datganiad Dylunio a Mynediad              | Mae'r Datganiad Dylunio a Mynediad yn nodi'r "egwyddorion dylunio" a fydd yn llywio sut y bydd Horizon yn adeiladu'r datblygiad a awdurdodir, a'r cysyniadau dylunio dangosol sy'n dangos sut y gellid cyflwyno Prosiect DCO Wylfa Newydd yn unol â'r egwyddorion hynny. Mae'r Gofynion yn gofyn bod dyluniad adeiladu manwl yn cael ei gyflwyno a'i gymeradwyo yn unol â'r egwyddorion dylunio yng nghyfrwl berthnasol y Datganiad Dylunio a Mynediad. Bydd hefyd angen i unrhyw gynlluniau diwygiedig fod yn unol â'r egwyddorion yn y Datganiad Dylunio a Mynediad.                   |
| Strategaeth Rheoli Gweithlu               | Mae'r Strategaeth Rheoli Gweithlu yn nodi'r egwyddorion y bydd Horizon a'i bartneriaid yn eu dilyn i reoli ymddygiad contractwyr a'r gweithlu. Bydd yn ofynnol i Horizon ddatblygu Cod Ymarfer gyda'i bartneriaid yn unol â'r egwyddorion a nodwyd yn y Strategaeth Rheoli Gweithlu ar gyfer rheoli ymddygiad y gweithlu, yn ogystal â phrotocolau penodol y rheini sy'n byw ar Gampws y Safle. Bydd yn ofynnol wedyn i'r gweithwyr gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad hwn drwy eu cytundebau llafur.                                                                                        |
| Strategaeth Rheoli Tirwedd a Chynefinoedd | Mae'r Strategaeth Rheoli Tirwedd a Chynefinoedd yn nodi sut y bydd yr elfennau allweddol o'r dirwedd a chynefinoedd yn Ardal Datblygu Wylfa Newydd yn cael eu creu a'u rheoli er mwyn lliniaru'r effeithiau ecolegol niweidiol a nodwyd yn y Datganiad Amgylcheddol. Bydd yn cynnwys y lluniadau pwyntiau cyfeirio dangosol fel atodiad.                                                                                                                                                                                                                                                 |
| Datganiad Dull Adeiladu                   | Mae'r Datganiad Dull Adeiladu yn nodi'r dulliau adeiladu, y gwaith a'r peiriannau sydd eu hangen ar gyfer gwaith ar Brif Safle'r Orsaf Bŵer. Mae'r dulliau a nodwyd yn y Datganiad hwn wedi'u defnyddio fel sail i'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol. Bydd Prif Safle'r Orsaf Bŵer yn cael ei adeiladu yn unol â'r Datganiad Dull Adeiladu, yn gyffredinol, a bydd Horizon yn gallu newid y dulliau a ddefnyddir o'r rheini a nodwyd yn y Datganiad Dull Adeiladu, ar yr amod nad oes unrhyw effeithiau perthnasol newydd neu wahanol i'r rheini a aseswyd yn y Datganiad Amgylcheddol. |
| Strategaeth Pennu Camau                   | Mae'r Strategaeth hon yn pennu trefn gyffredinol gwaith adeiladu Prosiect DCO Wylfa Newydd. Gan fod Prosiect DCO Wylfa Newydd yn cynnwys gwaith adeiladu ar draws nifer o safleoedd, diben y Strategaeth hon yw disgrifio'r berthynas rhwng pob un o'r safleoedd hynny a dangos pryd y bydd mesurau lliniaru allweddol, sydd eu hangen i wrthbwyso effeithiau gwaith adeiladu Prosiect DCO Wylfa Newydd, yn cael eu darparu. Mae'r Gofynion yn amodi y bydd Prosiect DCO Wylfa Newydd yn cael ei gyflawni yn unol â'r camau a nodwyd yn y Cynlluniau Pennu Camau.                        |

[Mae'r dudalen hon i fod yn wag]

**Tabl 2-5 Rhestr o Ddogfennau'r Archwiliad**

Tabl byw yw'r Rhestr o Ddogfennau'r Archwiliad. Bydd yn cael ei ddiweddarau drwy gydol y cyfnod Archwilio pan fydd diweddariadau neu ddiwygiadau yn cael eu gwneud i ddogfennau sy'n bodoli eisoes neu pan fydd dogfennau newydd yn cael eu cyflwyno i'r Arolygiaeth Gynllunio.

| Cyfeirnod y Ddogfen     | Rhif yr Arolygiaeth Gynllunio | Ffolder         | Fersiwn      | Dyddiad Cyflwyno | Wedi / Heb ei Hardystio | Teitl y Ddogfen             | Rheoliad Perthnasol             |
|-------------------------|-------------------------------|-----------------|--------------|------------------|-------------------------|-----------------------------|---------------------------------|
| Cyfrol 1. Ffurflen Gais |                               |                 |              |                  |                         |                             |                                 |
| 1.1                     | EN010007                      | Ym Mlwch 1 o 23 | Y diweddaraf | 1af Mehefin 2018 | Heb ei hardystio        | Ffurflen Gais               | APFP Rheoliad 5(1) ac Atodlen 2 |
